# Polisi Diogelu Plant ac Oedolion sy’n Agored i Niwed

| | |
|---|---|
| **Enw’r Polisi** | **Diogelu Plant ac Oedolion sy’n Agored i Niwed** |
| **Cymeradwy-wyd gan** | **Bwrdd Rheolwyr Popeth Cymraeg** |
| **Dyddiad y cymeradwy-wyd** | **Chwefror 6ed 2020** |
| **Dyddiad Adolygiad** | **Yn unol ag amserlen adolygu Coleg Cambria** |
| | |
| | |

Cymeradwy-wyd y polisi hwn yn derfynol ar : Chwefror 6ed 2020

Alun Heddwyn Jones
Cadeirydd Cyfarwyddwyr Popeth Cymraeg

Ioan Talfryn

## Cyflwyniad / Datganiad Polisi

Mae Popeth Cymraeg yn ymrwymedig i ddarparu amgylchfyd diogel ar gyfer ei fyfyrwyr a phlant sy'n mynychu unrhyw feithrinfeydd â drefnir ar y cyd ganddi a chyrff priodol eraill. Mae canllawiau cyfredol y Bwrdd Lleol Diogelu Plant, a deddfwriaeth yn sail i'n Polisi Diogelu Plant ac Oedolion sy'n Agored i Niwed, yn unol â Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008.

Bydd Popeth Cymraeg yn cydymffurfio â gofynion Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (2008), a'r Polisi a'r Gweithdrefnau Diogelu Oedolion sy'n Agored i Niwed a bydd yn cydweithio ag asiantaethau eraill er mwyn sicrhau diogelwch a lles ei fyfyrwyr/plant ym mhob amgylchfyd dysgu,

Mae Popeth Cymraeg yn:

1. Sicrhau bod y myfyrwyr yn teimlo'n ddiogel, eu bod yn cael gwrandawiad a'u bod yn gwybod pwy i fynd atynt os oes ganddynt bryderon neu anawsterau.
2. Dynodi Arweinydd Diogelu Enwebedig (DSL) mewnol, sef Prif Weithredwr Popeth Cymraeg, i fod yn gyfrifol am ddiogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Bydd yn sicrhau bod pob aelod o staff a'r cyfarwyddwyr yn ymwybodol o'r rôl hwn hwn a'i swyddogaethau.
3. Dynodi aelodau staff i fod yn uniongyrchol gyfrifol am reoli'r holl faterion yn ymwneud ag amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed o ddydd i ddydd (Prif Weithredwr a Rheolwr Popeth Cymraeg).
4. Cyfeirio pob pryder neu honiadau am gam-drin i'r asiantaethau priodol, trwy'r unigolyn dynodedig.
5. Cadw cofnodion cyfrinachol a diogel sy'n ymwneud â phob achos a gaiff ei gyfeirio.
6. Darparu hyfforddiant priodol yn ymwneud â cham-drin i'w staff i gyd, yn unol â chanllawiau'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant.
7. Ceisio rhoi cymorth priodol os yw'n gwybod bod myfyriwr wedi cael ei gam-drin, naill ai'n uniongyrchol neu drwy eu cyfeirio. Os yw plentyn yn cyhuddo plentyn arall, yna bydd pob plentyn yn cael cymorth gan Eiriolwr Tîm Gwasanaethau Myfyrwyr Coleg Cambria tra bod ymchwiliadau'n cael eu cynnal.
8. Cydnabod bod myfyrwyr, yn enwedig y rhai hynny sy'n agored i niwed oherwydd eu hoed, anabledd neu salwch, mewn perygl o gael eu cam-drin neu fod wedi cael eu cam-drin. Mae Popeth Cymraeg trwy ei aelodaeth o Ddysgu Cymraeg y Gogledd Ddwyrain yn darparu arweiniad ac addysg briodol i fyfyrwyr am gamdriniaeth a sut i atal hynny, trwy ei system gymorth fugeiliol / tiwtorialau.
9. Gofyn am Ddatgeliadau CRB, sydd wedi newid i Ddatgeliadau DBS ar gyfer holl aelodau'r staff a benodwyd ers Ebrill 2002. Gyda chyflwyniad y DBS dan y Ddeddf Diogelu Rhyddid 2012 mae nifer y bobl cymwys wedi gostwng, yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth.
10. Cadw'r hawl i wrthod cofrestru unrhyw un fel dysgwr os oes ganddynt gollfarn am gam-drin plant neu oedolion agored i niwed yn ogystal â'r hawl i dynnu myfyriwr allan o raglen os yw collfarn debyg yn cael ei datgelu.
11. Gweithredu ar unwaith ac yn rhoi gwybod am unrhyw honiad o gam-drin yn erbyn aelod o staff Popeth Cymraeg..
    Mae Popeth Cymraeg bob tro yn gweithredu i ddiogelu ei fyfyrwyr rhag cael eu cam-drin neu fanteisio arnynt.
12. Gweithio gyda'r asiantaethau priodol.
13. Sicrhau ei fod yn rhoi gwybod i'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant am unrhyw drefniadau maethu preifat ar gyfer myfyrwyr dan 15 oed.
14. Rhoi cyhoeddusrwydd eang i'r gweithdrefnau hyn a bydd yn rhoi hyfforddiant ar sut i'w gweithredu i'r staff.

## Pwrpas

Mae Popeth Cymraeg yn cydnabod ei gyfrifoldeb am, a'i gyfraniad at ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed yn llawn. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i lgyfarwyddwyr, staff a gwirfoddolwyr, waeth beth yw eu swyddogaeth, sy'n gweithio i'r corff. Mae'n berthnasol i bob un o'r safleoedd dysgu, gan gynnwys:

- Canolfannau allanol (gan gynnwys y rhai hynny ar eiddo'r cyflogwr)
- Meithrinfeydd

Mae Polisi Popeth Cymraeg yn seiliedig ar ac yn ddarostyngedig i bolisi Diogelu Plant ac Oedolion sy'n agored I niwed Coleg Cambria.  Os cyfyd achos bydd Popeth Cymraeg yn derbyn cymorth arbenigol o du swyddogion priodol Coleg Cambria.

Mae'r polisi a'r gweithdrefnau a a luniwyd gan Coleg Cambria ac a nodir isod wedi ystyried y canlynol:

Bydd y coleg yn gweithio o fewn canllawiau Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (2008) a Diogelu Grwpiau Agored i Niwed (2006).  Cadw Dysgwyr yn Ddiogel LLC(2015) a Gweithio gyda'n Gilydd er mwyn Diogelu Plant (2013), Gweithio gyda'n Gilydd o dan y Ddeddf Plant 2004 (Cymru), Polisi a Gweithdrefnau Interim Cymru ar gyfer Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed rhag cael eu Cam-drin (Ionawr 2013). Canllawiau Dyletswydd Atal Ddiwygiedig ar gyfer Cymru a Lloegr (Gorffennaf 2015) a Chanllaw Dyletswydd Atal ar gyfer Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru a Lloegr. Bydd y rhain yn cyflawni'r safonau angenrheidiol gan Estyn, AGC, DFES Cymru, SFA ac Ofsted.

Mae pedwar prif ran i'r polisi:

- Atal camdriniaeth trwy systemau dysgu a chymorth gofal bugeiliol
- gweithdrefnau i ganfod ac i roi gwybod am achosion neu achosion posibl o gam-drin, esgeuluso a bwlio.
- cymorth i fyfyrwyr a allai fod wedi cael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu eu bwlio neu sydd â syniadau eithafol sy'n rhan o ideoleg terfysgol.
- cynnig amgylchfyd diogel ar gyfer plant ym meithrinfeydd a chlybiau gwyliau'r coleg.

Lle cyfeirir at fyfyrwyr yn y ddogfen hon, bydd hynny'n cyfeirio at blant ac oedolion agored i'w niweidio.

## Diffiniadau

Mae'r term "plentyn" yn cyfeirio at unrhyw un dan 18 oed.  Mae felly'n cyfeirio at bob myfyriwr hyd at 18 oed.

Mae'r term oedolyn "agored i niwed" yn cyfeirio at unrhyw un 18 oed a hŷn sydd angen, neu efallai sydd angen gwasanaethau gofal cymunedol arnynt, oherwydd anabledd meddyliol neu anabledd arall, oedran, salwch neu efallai'n methu gofalu amdanyn nhw eu hunain, neu'n methu ag amddiffyn eu hunain rhag niwed sylweddol neu fanteisio'n ddifrifol arnynt.

Cam-drin - Gall rhywun gam-drin plentyn neu fyfyriwr agored i niwed trwy achosi niwed, neu drwy fethu â gweithredu i atal niwed. Gall plant neu fyfyrwyr sy'n agored i niwed gael eu cam-drin o fewn perthynas ddibynnol neu'n llai aml, gan ddieithryn.  Gall cam-drin fod yn fwriadol neu'n anfwriadol.   Dyma gategorïau cam-drin:

*Corfforol* - gall hyn gynnwys taro, ysgwyd, taflu, gwenwyno, llosgi neu sgaldio, boddi, mygu, neu achosi niwed corfforol fel arall i blentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed. Gall niwed corfforol gael ei achosi hefyd pan fydd rhiant / gofalwr yn ffugio symptomau, neu achosi iechyd gwael yn fwriadol i blentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed y maent yn gofalu amdanynt.  Mae trais domestig yn cael ei ystyried fel cam-drin corfforol. Bydd camau'n cael eu cymryd o dan y pennawd hwn os bydd gan staff y meithrinfeydd reswm dros gredu bod plentyn wedi derbyn anaf corfforol, gan gynnwys gwenwyno bwriadol, lle mae gwybodaeth bendant, neu amheuaeth resymol bod yr anaf wedi cael ei achosi neu ni chafodd ei atal.

*Emosiynol neu Seicolegol* - sef cam-drin plentyn neu oedolyn hawdd ei niweidio yn emosiynol yn barhaus, gan achosi effaith ddifrifol barhaus ar ddatblygiad emosiynol plentyn / oedolyn hawdd ei niweidio.  Efallai bydd hynny'n cynnwys dweud wrth blentyn / oedolyn hawdd ei niweidio eu bod yn ddi-werth, yn annigonol nad ydynt yn cael eu caru neu achosi iddynt deimlo'n ofnus neu mewn perygl neu fanteisio arnynt neu lygru'r plentyn / oedolyn hawdd ei niweidio dan sylw.  Cymerir camau dan y pennawd hwn os oes gan staff meithrinfeydd reswm dros gredu bod plentyn yn cael ei drin yn wael yn ddifrifol neu'n cael ei wrthod yn barhaus a bod hynny'n cael effaith andwyol difrifol ar ei ymddygiad a datblygiad emosiynol.

*Rhywiol* - perswadio neu orfodi plentyn / oedolyn agored i niwed i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, pa un a ydynt yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ai peidio. Gall y gweithgareddau hyn gynnwys cyswllt corfforol, gweithredoedd treiddiol neu anhreiddiol.  Efallai y byddant hefyd yn cynnwys gweithgareddau digyswllt, fel cynnwys plant / oedolion agored i niwed mewn edrych ar ddeunyddiau pornograffig neu gymryd rhan mewn cynhyrchu neu wylio gweithgareddau rhywiol, neu annog plant / oedolion agored i niwed i ymddwyn mewn ffyrdd

rhywiol amhriodol. Bydd camau'n cael eu cymryd o dan y pennawd hwn os bydd staff unrhyw un o feithrinfeydd safleoedd y coleg yn sylwi bod plentyn yn dangos gweithgareddau rhywiol trwy eiriau, chwarae, arlunio, neu’n dangos gormod o ddiddordeb mewn materion rhywiol, neu wybodaeth amhriodol o ymddygiad rhywiol oedolion.

*Esgeulustod* - methiant parhaus i ddiwallu anghenion corfforol a / neu seicolegol sylfaenol plentyn / oedolyn agored i niwed, sy'n debygol o arwain at amharu’n ddifrifol ar eu hiechyd neu ddatblygiad. Gall hyn gynnwys methu â darparu bwyd, cysgod, dillad, amddiffyn rhag niwed neu berygl, neu fethu â sicrhau gofal neu driniaeth feddygol. Bydd camau'n cael eu cymryd o dan y pennawd hwn os bydd gan staff unrhyw un o feithrinfeydd safleoedd y coleg reswm i gredu bod plentyn wedi cael ei esgeuluso’n barhaus neu'n ddifrifol a bod hynny wedi arwain at amharu’n ddifrifol ar ei iechyd neu ddatblygiad, gan gynnwys methiant cynnydd.

*Hiliol* - Gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth oherwydd rhyw, hil, anabledd a lle bo’n briodol dylai’r polisi hwn cael ei ddarllen yn unol â chynllun Cydraddoldeb y coleg. Mae diogelu a hyrwyddo lles plant ac oedolion agored i niwed yn cynnwys cydymffurfio â dyletswyddau statudol a amlinellwyd yn y Ddeddf Gydraddoldeb 2010.

*Ariannol* - Ffurf o gamdriniaeth a thwyll lle mae rhywun yn ceisio rheoli arian neu asedau person arall. Gall gynnwys dwyn arian, peidio â gadael dioddefwr i gymryd rhan ar unrhyw benderfyniadau ariannol neu atal dioddefwr rhag cael swydd.

*Cam-fanteisio Rhywiol ar Blant (CSE)* - Gan gynnwys sefyllfaoedd, cyd-destunau a pherthnasoedd camfanteisiol lle mae pobl ifanc yn cael rhywbeth (bwyd, llety, cyffuriau, alcohol, anrhegion, arian neu rywbeth mor syml ag anwyldeb) o ganlyniad i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol. Gall CSE fod ar ffurf perthnasoedd 'gydsyniol' neu gellir eu trefnu gan gangiau a grwpiau. Mae'r cyflawnwr bob amser yn cadw rhyw fath o rym dros y dioddefwr sy'n cynyddu wrth i'r berthynas ddatblygu. Mae CSE yn cynnwys graddau amrywiol o orfodaeth, bygythiad neu ddenu, gan gynnwys pwysau diangen gan gyfoedion i gael rhyw, bwlio rhywiol, gan gynnwys bwlio ar-lein a meithrin perthynas amhriodol. Nid yw rhai pobl ifanc sy'n cael eu cam-fanteisio arnynt yn rhywiol yn dangos unrhyw arwyddion allanol o’r gamdriniaeth hwn.

*Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod* (FGM) – Mae dioddefwyr yn debygol o ddod o gymuned y gwyddys i ymarfer FGM. Mae yna amrywiaeth o ddangosyddion posibl y gall person ifanc fod mewn perygl o FGM, ac efallai bod un ar ben ei hun ddim yn dangos risg ond os oes dau neu fwy o ddangosyddion yn bresennol, gallai hyn fod yn arwydd o risg i'r person ifanc. Efallai na fydd merched yn ymwybodol o'r ymarfer neu y gellir ei gynnal arnynt, felly rhaid dangos sensitifrwydd bob amser.

*Masnachu Plant* - Mae masnachu plant yn gamdriniaeth. Mae plant yn cael eu recriwtio, eu symud neu eu cludo i rywle a’u cam-fanteisio ar, eu gorfodi i weithio neu eu gwerthu. Mae plant yn cael eu masnachu ar gyfer cam-drin rhywiol, twyll budd-dal, priodas dan orfodaeth, caethwasanaeth domestig (glanhau, gofal plant, coginio), llafur gorfodol, gweithgarwch troseddol (pigo pocedi, cardota, cludo cyffuriau, gweithio ar ffermydd canabis, dwyn bagiau). Mae plant yn cael eu masnachu i mewn i'r DU o dramor ond gallant hefyd gael eu masnachu o un rhan o'r DU i un arall.

*Priodi dan Orfodaeth* - Dyma briodas a gynhaliwyd heb ganiatâd dilys un neu ddau o’r unigolyn a lle mae gorfodaeth yn ffactor. Mae FM yn dramgwydd penodol o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Deddf Troseddu a Phlismona 2014. Mae Gorchymyn Amddiffyn Priodi Dan Orfodaeth (FMPO) yn gallu cynnig amddiffyniad i ddioddefwr o bob math o seremonïau sifil neu grefyddol. Mae'r trosedd yn gymwys i berson sy'n fwriadol yn gorfodi person i briodi, gan gredu nad yw'r person yn rhoi caniatâd, neu berson sy'n twyllo rhywun i fynd dramor ar gyfer y diben penodol o eu gorfodi i briodi. Mae hwn yn drosedd os yw'r FM yn mynd yn ei flaen neu ddim.

*Trais ar sail anrhydedd* - Mae hwn yn derm ymbarél i gwmpasu gwahanol droseddau a gwmpesir gan y ddeddfwriaeth bresennol. Gellir ei ddisgrifio fel casgliad o arferion, a ddefnyddir i reoli ymddygiad o fewn teuluoedd neu grwpiau cymdeithasol i amddiffyn credoau diwylliannol a chrefyddol a / neu anrhydedd. Gall trais o'r fath ddigwydd pan fydd troseddwyr yn ystyried bod perthynas wedi cywilyddio'r teulu a / neu'r gymuned trwy dorri eu cod anrhydedd. Mae'n gam yn erbyn hawliau dynol a gall fod yn ffurf ar drais yn y cartref a / neu rywiol. Nid oes unrhyw gyfiawnhad dros gam-drin hawliau dynol pobl eraill.

*Radicaleiddio* - Proses lle mae unigolyn neu grŵp yn dod i fabwysiadu delfrydau a dyheadau gwleidyddol, cymdeithasol, neu grefyddol yn fwyfwy eithafol sy’n (1) gwrthod neu’n tanseilio'r status quo neu (2) yn gwrthod a / neu’n tanseilio syniadau cyfoes a mynegiadau rhyddid i ddewis. Dyma'r broses lle mae pobl yn dod i gefnogi terfysgaeth ac eithafiaeth dreisgar ac, mewn rhai achosion, yn ymuno â grwpiau terfysgol.

*Bwlio ac Aflonyddu* - Dylai'r Polisi hwn gael ei ddarllen ar y cyd â Pholisi Bwlio ac Aflonyddu'r Coleg. Mae hyn yn cael ei ystyried fel categori arall o gam-drin a allai gynnwys unrhyw un o'r elfennau uchod. Gall gynnwys bwlio drwy ynysu neu drwy eithrio o grwpiau cymdeithasol neu addysgol.

Nid yw'n anghyffredin i blentyn neu fyfyriwr agored i niwed dioddef o fwy nag un fath o gamdriniaeth. Gall camdriniaeth fod yn rhan o batrwm ymddygiad neu yn ddigwyddiad unigol.

## Cyfrifoldebau

Arweinydd  Diogelu Enwebedig (DSL)
Cyflogir y DSL gan Goleg Cambria.  Yn ei absenoldeb / habsenoldeb bydd dirprwy hyfforddedig a enwebwyd yn ymgymryd â'r gwaith. Bydd y DSL yn rhoi gwybod i'r Pennaeth o achosion y mae o/hi yn eu hystyried yn briodol.

Mae'r DSL (neu'r dirprwyon) yn cyfeirio'r achos at yr asiantaeth briodol trwy eu ffonio cyn gynted ag y bo modd ac yn sicr o fewn 24 awr o dderbyn yr honiad / amheuaeth.  Bydd y DSL yn cadarnhau cyfeirio'r achos trwy anfon y ffurflen gyfeirio.

Cyfrifoldeb y DSL yw sicrhau bod copïau o'r ffurflenni cyfeirio a dogfennau cysylltiedig yn cael eu cadw'n ddiogel yn unol â Pholisi Diogelu Data'r Coleg.  Mae cyfrinachedd yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel a dim ond gyda'r bobl hynny y mae'n rhaid iddynt gael gwybod y byddwn yn rhannu'r wybodaeth â nhw.  Bydd y wybodaeth yn cael ei dosbarthu gan ddilyn canllawiau'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant.

Bydd y DSL yn paratoi crynodeb ystadegol o ganlyniadau o leiaf un waith y flwyddyn i'w gyflwyno i Fwrdd y Llywodraethwyr.

Gweithwyr Popeth Cymraeg
Petai aelod o staff Popeth Cymraeg yn amau, neu'n cael gwybod bod plentyn neu oedolyn hawdd ei niweidio efallai wedi cael ei gam-drin, mae'n rhaid iddynt roi gwybod I Brif Weithredwr Popeth Cymraeg y diwrnod hwnnw a bydd y mater yn cael ei gyfeirio'n syth at DSL Coleg Cambria naill ai ar lafar neu yn ysgrifenedig. Ni ddylai'r staff gynnig sylwadau am unrhyw ddatganiad na holi'r myfyriwr. Darperir hyfforddiant priodol i staff er mwyn sicrhau bod hyn yn cael ei weithredu.

Meithrinfeydd Allanol
Petai digwyddiad yn un o'r meithrinfeydd allanol a ddefnyddir gan Popeth Cymraeg, bydd Prif Weithredwr Popeth Cymraeg naill ai'n trafod y digwyddiad gyda'r rhieni / gofalwyr cyn gynted ag y bo modd, neu'n cyfeirio'r mater yn uniongyrchol at DSL Coleg Cambria.  Bydd y DSL yn cysylltu â Gwasanaethau Cymdeithasol Plant ynglŷn â phryderon am blentyn yn un o feithrinfeydd Popeth Cymraeg.

Os gwneir honiad o gam-drin yn erbyn aelod o staff Popeth Cymraeg cyfeirir y mater gan Brif Weithredwr Popeth Cymraeg at DSL Coleg Cambria yn dilyn canllawiau Rhan 4 Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008 a gofynion AGC.

Cadeirydd y Corff Llywodraethu
Os gwneir honiad yn erbyn Prif Weithredwr Popeth Cymraeg, bydd Cadeirydd Cyfarwyddwyr Popeth Cymraeg yn ymgysylltu â'r awdurdod lleol a fydd yn dilyn canllawiau Rhan 4 Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008 a gofynion AGC. Cysylltir hefyd â'r cynrychiolyd cyswllt rhwng Coleg Cambria a Popeth Cymraeg.

## Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb

I'w gwblhau ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid mewnol ac allanol

**Y Broses Ymgynghori a Materion eraill**

Bydd Coleg Cambria yn sicrhau bod polisi'r coleg ar gyfer diogelu (sy'n sail i bolisi Popeth Cymraeg) yn cael ei arwain gan y Byrddau Diogelu Plant Lleol priodol ac Arolygiaeth Gofal Cymru.

Bydd y coleg yn sefydlu ac yn cynnal Grŵp Diogelu, a gadeirir gan y Pennaeth, a bydd yn sicrhau bod aelodau'r grŵp hwn wedi cael hyfforddiant priodol. Bydd hyn yn cynnwys y DSL.

Bydd y Grŵp Diogelu'n cydnabod swyddogaeth y DSL ac yn trefnu cymorth a hyfforddiant. Byddant yn sicrhau bod yr unigolyn dynodedig yn cynrychioli'r coleg mewn cyfarfodydd priodol.

Petai'r DSL yn absennol bydd staff enwebedig sydd wedi derbyn hyfforddiant ar gael i weithredu'r gweithdrefnau petai angen hynny.

Bydd y Grŵp Diogelu yn sicrhau bod pob aelod o staff y coleg, pob llywodraethwr y coleg a Phrif Weithredwr a Rheolwr Popeth Cymraeg yn gwybod:
- enw'r DSL a'i swyddogaeth.
- Bod ganddynt gyfrifoldeb unigol i gyfeirio pryderon am ddiogelu gan ddefnyddio'r trefnau cywir ac o fewn y terfynau amser a gytunwyd arnynt gyda'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant.

Bydd y DSL yn gyfrifol am sicrhau fod pob aelod o staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau a'r arferion a amlinellwyd yn y polisi hwn. Bydd y broses hon yn cael ei monitro gan y Grŵp Diogelu

Mae'r Polisi hwn ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.